Babell Y Garn Madog Nasareth Pen-llwyn Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Pen-llwyn Nasareth Madog Garn Babell

**Cyfres newydd, rhif 54** **Calan 2021**



**Edrych**

Edrychwch yn ôl a diolchwch i Dduw.
Edrychwn ymlaen ac ymddiriedwch yn Nuw.
Edrychwch o'ch cwmpas a gwasanaethwch Dduw.
Edrychwch i fyny a cheisiwch Dduw.

*Nicky Gumbel*

# Cyn y daeargryn

Wrth wrando'n ofalus ar gyfeillion o Ogledd-ddwyrain India, byddech yn clywed, o bryd i'w gilydd, ryw gymal tebyg i hyn: 'roedd hynny cyn y daeargryn', neu weithiau cyfeirid at ryw ddigwyddiad 'wedi'r daeargryn'. Roedd 'y daeargryn', mor ddramatig fel ei fod wedi ei serio yng nghof y llwyth.

Doedd y digwyddiad, mae'n rhaid i mi gyfaddef, yn golygu fawr ddim i mi. Ond wedi chwilio, canfuwyd mai cyfeirio at ddigwyddiad ar 12 Mehefin 1897 yr oedd y bobl. Nid yw'n anodd deall pam fod y digwyddiad wedi gadael ei ôl ar dirwedd ac ar ddychymyg trigolion Bryniau Casia. Effeithiodd y daeargryn gymaint ar rannau gogleddol y llwyfandir nes i'r tir godi ar amrantiad dros 10 metr o uchder. Dros 120 o flynyddoedd yn ddiweddarach rhennir amser yn 'cyn y daeargryn' neu 'wedi'r daeargryn'.

Go brin fod unrhyw un o unrhyw radd wedi rhag-weld y digwyddiad na'r dinistr.

Flwyddyn yn ôl, prin y gallai unrhyw un fod wedi darogan dyfodiad y pla, na'r gofid gyda Cofid a ddaeth i'n rhan. Doedd dim sôn yn yr Almanac nac yn y sêr y byddai ein cymunedau o dan glo ac na fyddem yn medru dathlu na Phasg, na Diolchgarwch, na chanu ein carolau Nadolig yn ein capeli. Tybed a fydd Cofid, fel y daeargryn yn India, yn cael ei ddefnyddio fel carreg filltir gyfleus i fesur ein dyddiau wrthi?

Flwyddyn yn ôl, Brecsit, a chwblhau'r trafodaethau er sicrhau telerau masnachu ffafriol a theg, oedd yr unig beth o bwys ar y gorwel. Yng nghanol argyfwng Cofid, fodd bynnag, cripiodd gorwelion Brecsit yn llechwraidd atom. Bydd effeithiau ei frath arnom am flynyddoedd i ddod.

Er cymaint yr ydym yn edrych ymlaen at weld cefn 2020, ac er y daeth newyddion gwell yn ddiweddar a bod rhaglen frechu wedi dechrau cael ei gweithredu, gwyddom na fydd y Cofid am ein gadael gyda'r calendr ac na chilia pryderon Brecsit gyda throad y flwyddyn. Pa mor hyderus ydym, tybed, y cawn 'Flwyddyn Newydd dda' yn 2021?

Wrth gamu'n ansicr i'r flwyddyn a ddaw y mae gennym, fel pobl yr Arglwydd Iesu Grist, obaith y medrwn ei feddiannu. Gobaith ydyw y medrwn ei rannu gyda'n cymdogion.

Daw, fe ddaw diwedd ar y Cofid ym mhen y rhawd.
Daw, fe ddaw awr pan gawn gydgyfarfod drachefn yn ein capeli.
Daw, fe ddaw yr awr i wynebu canlyniadau penderfyniadau gwleidyddol a dewisiadau ddoe.

Ond nid yn nhreigl amser, neu newid hinsawdd wleidyddol neu gymdeithasol y mae ein gobaith ni.

Wedi'r cyfan mae'n anorfod y daw rhyw bryder arall yn lle Cofid i'n dychryn drachefn!

Dychmygwch ŵr yn eistedd ar adfail ei gartref. Nid daeargryn achosodd y dinistr ond goresgyniad a rhyfel. O'i gwmpas mae arogl mwg ac wylofain pobl oedd wedi eu siomi yn eu harweinwyr, eu duwiau, eu Duw. Gorchfygwyd Jerwsalem. Caethgludwyd yr arweinwyr oll i gyd i Fabilon. Chwalwyd ac ysbeiliwyd y Deml. Dadrithiwyd y boblogaeth. Fe'i lloriwyd mewn anobaith llwyr.

Dacw'r gŵr. Jeremeia yw ei enw. Ac ef oedd yr un fu'n condemnio annuwioldeb y bobl ac yn darogan gwae. Gwrandewch arno'n brwydro â'r Arglwydd, yn dweud yn onest yn ei ddagrau ei fod wedi yfed y 'wermod a'r bustl', a 'diflannodd fy nerth a hefyd fy ngobaith oddi wrth Dduw'.

Ac eto.

Ac eto.

Yng nghanol ei ofid mynega baradocs rhyfeddol ffydd. Yng nghanol y chwalfa fawr adnabu Jeremeia ffyddlondeb anhaeddiannol yr Arglwydd ei hun. Ac ym mhresenoldeb gwrthrych ei ffydd trodd grŵn ei alar yn sibrydiad o obaith:

> Meddyliaf yn wastad am hyn, ac felly disgwyliaf yn eiddgar. Nid oes terfyn ar gariad yr ARGLWYDD, ac yn sicr ni phalla ei dosturiaethau. Y maent yn newydd bob bore, a mawr yw dy ffyddlondeb. Dywedais, "Yr ARGLWYDD yw fy rhan, am hynny disgwyliaf wrtho."

I Gristnogion, cartrefa ein 'Gobaith' mewn person: yr Arglwydd Iesu Grist ei hun. Dyma Un na ddywedodd gelwydd erioed. Ac ar ddechrau blwyddyn newydd yn nherfysg ein bywydau erys yn 'noddfa ac yn nerth i ni', yn gymorth parod yn ein cyfyngderau.

*Watcyn James*

## Ysgol Sul ar Zoom

Pwy fyddai wedi meddwl ddechrau mis Mawrth diwethaf na fyddai yn bosibl i ni gynnal ysgol Sul yn festri Capel Penllwyn, nac yn unrhyw festri arall o fewn yr ofalaeth oherwydd yr afiechyd ofnadwy yma. Gwelwn eisiau cwmni'r plant yn fawr, ond diolch am dechnoleg a pharatoadau trylwyr ein Gweinidog, Dr Watcyn James. Mae plant ysgolion Sul Bow Street, Capel Seion, Penllwyn a Chaerffili yn edrych ymlaen yn eiddgar bob Sul ac yn elwa'n fawr o'r sesiynau yma.

Dechreuir drwy ofyn i'r plant am unrhyw jôc y bu iddynt ddod ar ei thraws yn ystod yr wythnos, e.e.
Beth ti'n galw plismon o Lanberis? – Copa'r Wyddfa!
Beth sy'n mynd i fyny ond byth yn dod i lawr? Dy oed!

Bydd y plant a'r oedolion yn ceisio'u gorau glas i ddod o hyd i'r atebion cywir. Cânt stori o'r Beibl i ddilyn, a bydd fideo'n cael ei arddangos yn ogystal â chwestiynau yn ymwneud â'r hanes.

Yn olaf, ceir gweithgareddau celf, posau a sialensau o bob math, ac mae hyn i gyd yn help i'r plant ganolbwyntio ar yr hyn maen nhw wedi'i ddysgu, ac yn dod â'r Beibl yn fyw i bob un.

Dyma enghraifft o gardiau diolch i wasanaeth iechyd yr NHS o waith y plant a neges bwrpasol oddi mewn. Caiff y rhain eu hanfon i Ysbyty Bronglais gyda hyn. Roedd yr orchwyl hon yn cyd-fynd â hanes Iesu yn iacháu mab un o swyddogion llywodraeth Herod, a hwythau fel teulu'n dod yn gredinwyr.

Diolch yn fawr i chi, blant, am eich ffyddlondeb bob bore Sul, a diolch eto i'n Gweinidog am drefnu ar eich cyfer a hynny mewn ffordd mor ddiddorol ac addysgiadol, a gwneud yn siŵr nad yw cyfnod y Covid yn amharu ar eich gwybodaeth Feiblaidd.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bob un!

*Heulwen Lewis*




Cardiau'r plant yn diolch i'r NHS

Os gwyddoch chi am unrhyw blant fyddai'n mwynhau'r cyfle i ymuno â sesiynau bywiog yr ysgol Sul am 10.30 o'r gloch dros Zoom ar fore Sul, anfonwch air at y Gweinidog, y Parch Watcyn James. Croeso cynnes i bawb.

**Manylion Cyswllt y Gweinidog:**
Y Parchedig Ddr R. Watcyn James
Eryl, Capel Bangor, Aberystwyth,
SY23 3LZ
01970 880615
ebost: watcyn.james@ebcpcw.cymru




Diolch i holl gyfranwyr a darllenwyr 'Gair o'r Garn' am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn hon, sydd wedi bod yn gyfnod mor heriol i lawer.

Rydyn ni'n arbennig o falch o ddeall bod ein cyn-weinidog, y Parch Wyn Morris, yn gwella'n dda yn dilyn ei driniaeth ddiweddar. Pob dymuniad da iddo.

Anfonwn ein cofion arbennig at bawb sydd mewn gwaeledd neu sydd wedi'u hynysu a'r rhai sy'n pryderu neu'n galaru am anwyliaid, gan hyderu y bydd neges oesol y Nadolig cyntaf yn nerth ac yn gysur i chi.

Dymunwn flwyddyn newydd fendithiol i bob un ohonoch, gan obeithio y bydd cyfle inni ddod at ein gilydd i gydadddoli a chymdeithasu wyneb yn wyneb yn ystod 2021.

## Cyhoeddiadau'r Ofalaeth

Gan fod y sefyllfa o ran Covid-19 yn parhau'n ansicr, rydym yn rhag-weld y bydd yr oedfaon a'r ysgol Sul yn cael eu cynnal dros Zoom yn ystod misoedd Ionawr, Chwefror a Mawrth: yr oedfa am 9.30 ar fore Sul, a'r ysgol Sul yn dilyn am 10.30 o'r gloch.

Mae gwahoddiad **i bawb** i ymuno yn y gwasanaethau hyn – mae Zoom yn hawdd iawn i'w ddefnyddio ac ar gael ar gyfrifiadur, ar dabled (iPad &c) a hefyd drwy'r ffôn. Felly, rhowch gynnig arno – anfonwch air at y Gweinidog am fanylion.


Bydd y Gweinidog a'r swyddogion yn adolygu'r sefyllfa'n rheolaidd, ac os bydd modd inni ddod at ein gilydd i gydaddoli yn adeiladau'r capeli, byddwn yn eich hysbysu o'r trefniadau yn y dulliau arferol.

Gweler hefyd: www.capelygarn.org
Tudalen Facebook: Capel y Garn
Sianel YouTube: Capel y Garn
Dilynwch ni ar Twitter: @capelygarn


| | |
|---|---|
| 15 Ionawr | 'Cymru a Bryniau Casia: sgwrs a chân<br>gan Gareth Bonello<br>Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 pm<br>dros Zoom – cysylltwch â Marian am fanylion |
| 25 Ionawr | Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth<br>drwy gyfrwng Zoom am 7.30 o'r gloch |
| 19 Chwefror | 'Ailystyried O. M. Edwards': sgwrs rhwng<br>Hazel Walford Davies a Gruffydd Aled Williams<br>Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 pm<br>dros Zoom – cysylltwch â Marian am fanylion |
| 5 Mawrth | Dydd Gweddi'r Byd<br>'Adeiladwch ar Sylfaen Gadarn' – gwasanaeth<br>arbennig a baratowyd gan Chwiorydd Vanuatu<br>– manylion i ddilyn |
| 19 Mawrth | 'Noson yng nghwmni Siân James'<br>Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 pm<br>dros Zoom – cysylltwch â Marian am fanylion |

# Tudalen y Plant

## FAINT?



Faint o bob un o'r pethau isod a welwch chi yn y llun uchod?




## CHWILAIR

Fedrwch chi gael hyd i enwau pedwar o bobl sy'n ymddangos yn stori'r Nadolig?

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I | E | S | U | D | G | M | A | T | P | D | A |
| S | C | U | E | O | F | A | R | C | I | B | B |
| H | E | R | O | D | H | I | Y | B | N | L | M |
| T | J | O | S | E | FF | R | S | R | O | W | C |

Posau o Gomic Stori'r Nadolig (Cyhoeddiadau'r Gair, 2015)

## Gobaith – myfyrdod ar gyfer Sul cyntaf yr Adfent

‘Yn y dydd hwnnw fe ddywedir,
“Wele, dyma ein Duw ni.
Buom yn disgwyl amdano i’n gwaredu;
Dyma’r Arglwydd y buom yn disgwyl amdano,
gorfoleddwn a llawenychwn yn ei iachawdwriaeth.” ’(Eseia 25:9)

Ystyr y gair Lladin *adventus* yw dyfodiad, ac mae’n cyfeirio at ddau ddyfodiad, sef dyfodiad Crist y Nadolig cyntaf a hefyd y disgwyliad am ei ail ddyfodiad yn y dyfodol. Tymor gobaith yw’r Adfent. O’r tri rhinwedd mawr – ffydd, gobaith, cariad – yn ddiau rhoddir mwy o sylw i’r ddau arall nag i obaith.

1. Carwn bwysleisio’n gyntaf y rhoddwyd inni obaith, gobaith y gallwn ddibynnu arno, a dyna sy’n rhoi’r gallu inni wynebu ein presennol. Mae’r Apostol yn y Llythyr at yr Effesiaid yn sôn am ei ddarllenwyr cyn iddynt ddod yn Gristnogion fel hyn: pobl oeddech, meddai, ‘heb Grist, heb obaith a heb Dduw yn y byd’ (2:12).

Ac mae yna lawer o bobl felly yn ein plith ni heddiw; yn wir, mae rhai ohonynt yn ymfalchïo eu bod ‘heb Grist a heb Dduw’.

Mewn beth, felly, y maen nhw’n rhoi eu gobaith? Wel, maent yn ei roi mewn cynnydd (*progress*) anochel sydd i ddigwydd wrth i bobl ymarfer eu rheswm ac ymarfer eu ryddid oddi wrth yr hyn maen nhw’n eu cyfrif yw ‘hualau’ crefydd. Mewn gair, gobeithio am weld sefydlu teyrnas dyn ar y ddaear y maent: ‘Dyn ar ei ben ei hun piau hi o hyn ymlaen’.

Ond does dim angen rhyw lawer o grebwyll i sylweddoli mai adeiladu ar dywod y mae’r awduron hyn. Faint, yn wir, o dystiolaeth sydd bod dyn yn gwella’n naturiol ac yn bownd o wella felly? I’r gwrthwyneb, onid dirywiad, ac yn aml anobaith, a welwn ar bob llaw yn ein cymdeithas a’n byd cyfoes? Ac mae’r cyfnod cythryblus presennol wedi dwysáu’r teimladau hyn.

‘Optimism and hope are not the same’, ddywedodd y diweddar Brif Rabbi, yr Arglwydd Jonathan Sacks, mewn cyfrol o sgyrsiau a gyfrannodd i ‘Thought for the day’, yn dwyn y teitl *From Optimism to Hope*:

> ‘Optimism is the belief that the world is changing for the better;
> hope is the belief that, together, we can make the world better.
> Optimism is a passive virtue, hope is an active one.
> It needs no courage to be an optimist, but it takes a great deal
> of courage to hope.’

Mae'r efengyl yn sefydlu ei gobaith ar weithgarwch Duw yn ein plith. Ystyriwn adnodau'r Benedictus, sef Proffwydoliaeth Sachareias, tad Ioan Fedyddiwr:

> 'Hyn yw trugaredd calon ein Duw –
> fe ddaw â'r wawrddydd oddi uchod i'n plith,
> i lewyrchu ar y rhai sy'n eistedd yn nhywyllwch cysgod angau,
> a chyfeirio ein traed i ffordd tangnefedd.'
> (Allan o'r Benedictus, Luc 1:78–9)

Dyna pam yr ydym yn gallu dal i obeithio mewn byd fel hwn gyda'i holl broblemau. Mae'n rhaid gosod sylfeini'r dyfodol yn y presennol.

Enw ail gyfrol hunangofiannol Barack Obama yw *The Audacity of Hope*. Ie, cael hyder i obeithio: 'dare to hope'.

'Dim ond cred mewn "Duw ag wyneb dynol", fel y'i datguddiwyd gan Iesu Grist, all ddwyn gobaith parhaol,' meddai'r Pab Emeritus Benedict.

Galwodd Jonathan Sacks obaith yn 'signal of transcendence – something that speaks to us from beyond where we are'.

2. Ond cysylltir gobaith fel arfer â'r dyfodol, ac â'r dyfodol yn unig.

Oes, wrth gwrs, mae gan Gristnogion obaith am y dyfodol yn ogystal ag am y presennol. Maent yn gwybod nad difancoll sy'n eu haros. Ond nid rhyw abwyd a gynigir i'r ffyddloniaid, nid rhyw 'pie in the sky when you die', yw'r addewid am gymdeithas y saint yn y nef i'r Cristion.

Yn un o benodau mawr y Testament Newydd, yr 11eg yn y Llythyr at yr Hebreaid, disgrifir llu o rai – arwyr yr Hen Destament gan fwyaf – a ddilynodd eu gweledigaeth ar y ddaear drwy fyw mewn ffydd a gobaith a chyrchu at nod arbennig.

Ac yn dilyn y bennod ceir yr anogaeth hon:

> 'Am hynny, gan fod cymaint torf o dystion o'n cwmpas, gadewch i ninnau fwrw ymaith bob rhwystr, a'r pechod sy'n ein maglu mor rhwydd, a rhedeg yr yrfa sydd o'n blaen heb ddiffygio, gan gadw golwg ar Iesu, awdur a pherffeithydd ffydd.' (12:1–2).

Gellir byw'r presennol yn anrhydeddus ac yn ddiofn os yw'n arwain at y nod arbennig o ddilyn yr Arglwydd Iesu.

3. Felly, mae'r Adfent yn ein cydio â'r ddau fyd am fod a wnelo dyfodiad y Crist â'i ddau ddyfodiad. Nid yn unig â'r byd a ddaw y mae â wnelo'r gobaith Cristnogol ond mae'n gwbl angenrheidiol er mwyn byw yn y byd hwn hefyd.

Oherwydd bod y dyfodol yn ddiogel, mae modd byw'r presennol yn hyderus yn ogystal. Felly, yn y cyfnod cyn y dyfodol mae'r gobaith Cristnogol yn cynnwys ceisio trawsnewid y byd hwn hefyd. Wedi'r cyfan, onid ydym yn gweddïo'n feunyddiol: 'Deled dy deyrnas; gwneler dy ewyllys, ar y ddaear fel yn y nef'?

Felly, mae'r sawl sy'n meddu ar y gobaith Cristnogol yn rhwym o fyw'n wahanol yn y byd a'r bywyd hwn. Ac onid oes addewidion am hyn mewn cân arall sy'n gysylltiedig â'r Adfent a'r Nadolig: y Magnificat (Cân Mair, Luc 1:51–3)?

> 'Gwnaeth rymuster â'i fraich,
> gwasgarodd y rhai balch eu calon:
> tynnodd dywysogion oddi ar eu gorseddau,
> a dyrchafodd y rhai distadl;
> llwythodd y newynog â rhoddion,
> ac anfonodd y cyfoethogion ymaith yn waglaw.'

Dyma'n wir arwyddion o ddyfodiad teyrnas Dduw i'n plith. Dim ond drwy weithredu cariad a chydymdeimlad a chyfiawnder y byddwn ni'n dod i berthyn i gymdeithas y nef. 'In a world where it is all too easy to despair, to sink back in resignation, there are living and active communities which call us not to give up ... and to work with and for those who bring life and healing to their people' (John Riches o Brifysgol Glasgow).

Ceir hanes am y diweddar Rabbi Hugo Gryn yn Auschwitz: yno roedd y teulu'n mesur y bwyd – y *rations* – prin yn ofalus, yn enwedig yn nhrymder y gaeaf. Wrth baratoi ar gyfer Gŵyl Hanukkah, defnyddiodd ei dad lwmp o fargarîn fel tanwydd ar gyfer y gannwyll sy'n arwydd o'r goleuni a ddethlir yn yr ŵyl hon. 'Pam,' gofynnai'r teulu, 'yr holl wastraff ar adnoddau prin?' Atebodd y tad:




'Gwyddom fod modd byw am dair wythnos heb fwyd, ond heb obaith nid oes modd byw yn iawn am dri munud.'

Hyfryd oedd derbyn drwy'r post yn ddiweddar galendr oddi wrth y Feibl Gymdeithas â'r pennawd: *Calendar of Hope*. Mae ffydd a gobaith ynghyd â chariad yn hanfodol i fywyd yn y goleuni.

Gorffennwn gyda geiriau Rhufeiniaid 15.13: 'A bydded i Dduw, ffynhonnell gobaith, eich llenwi â phob llawenydd a thangnefedd wrth ichwi arfer eich ffydd, nes eich bod, trwy nerth yr Ysbryd Glân, yn gorlifo â gobaith.'

*John Tudno Williams*

# Cymdeithas Lenyddol y Garn

Daeth nifer dda i gyfarfod cyntaf y gymdeithas a gynhaliwyd ar Zoom nos Wener, Hydref 16eg, gyda'r Athro Gruffydd Aled Williams, Cadeirydd y Gymdeithas, yn cadeirio. Gwaith hawdd iddo, meddai, oedd cyflwyno'r siaradwraig, Sara Huws, gan ei bod, yn ogystal â bod yn un o blant yr eglwys, hefyd yn wyneb cyfarwydd ar y sgrin deledu yn cyflwyno'r rhaglen *Waliau'n Siarad*.

Dilynodd awr ddifyr dros ben gyda Sara'n olrhain ei hanes hi ei hun a thrwy hynny'n rhoi cipolwg i ni ar ddirgeledigaethau megis hanes celf – nid dim ond darluniau mewn fframiau ond yr hyn all fod ynghudd dan blastr ar walydd hen adeiladau. Aeth ymlaen wedyn i sôn am drefnu a dodrefnu arddangosfeydd ac amgueddfeydd – pa greiriau i'w dangos, a beth a sut i'w harddangos – y math o beth fydd yn aros yn ein meddyliau y tro nesaf y cawn gyfle i ymweld â sefydliadau o'r fath.

Daeth y sgwrs i ben gyda'i phrosiect cynhyrfus diweddaraf, sef ysbrydoli sefydlu amgueddfa newydd sbon ar hanes menywod ym mhen dwyreiniol Llundain. Gallai hon fod o ddiddordeb mawr i ni yng Ngheredigion gan fod cymaint o ferched ifainc o'r ardal wedi mynd i wasanaethu yn Llundain yn y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ac wedi aros yno, er nad yn y pen dwyreiniol efalle. Diolch i Sara am awr lawn gwybodaeth.



Tro Alan ac Ann Wynne Jones oedd hi i drefnu cwis ar gyfer yr ail gyfarfod ar Dachwedd 20fed, ac roedd nifer dda wrth eu sgriniau â'u pensilau a'u papurau yn barod. Cwestiynau ar gerddoriaeth roddodd Alan i ni ac am faterion mwy cyffredinol roedd cwestiynau Ann.
Y Parchedig Watcyn a Mrs Lowri James ddaeth i'r brig, a llongyfarchiadau mawr iddyn nhw. Diolch o galon hefyd i'r cwisfeistri am gwestiynau heriol a difyr dros ben.

Yng nghyfarfod Rhagfyr 11eg, Heledd Ann Hall a Llinos Dafis fu'n cyflwyno naws y Nadolig ar lafar ac ar gân. Braf oedd gweld nifer dda wedi ymuno â ni eto i fwynhau detholiad amrywiol o farddoniaeth a cherddoriaeth.

Cawsom ein tywys yn ôl i fyd y Ficer Rhys Prichard (1579?–1644) gan Llinos Dafis, a thrwy gyfrwng nifer o ddyfyniadau o'r gyfrol *Cannwyll y Cymry*, dangosodd gamp y Ficer yn gosod rhannau o'r Beibl ar fydr ac odl ar gyfer pobl ei oes. Ac mae'n rhyfeddol fod ein cenhedlaeth ninnau, 400 mlynedd yn ddiweddarach, yn dal i allu gwerthfawrogi neges oesol y cerddi hyn.

Taith gerddorol a gafwyd gan Heledd Ann Hall, gan ddechrau gyda Karl Jenkins a gorffen gyda medli o garolau cyfarwydd. Ar y daith hefyd cawsom flas o drefniannau gwahanol o garol werinol o'r Wcráin, y perfformiad cyntaf o 'Garol Eliseus' a gweithiau gan y cyfansoddwyr poblogaidd Eric Whitacre a John Rutter. Braf oedd cael cyfle i wrando ar garolau llai adnabyddus, a'r cyfan wedi'i gyflwyno a'i esbonio mewn ffordd mor ddifyr a deheuig gan Heledd.

Daethpwyd â'r sesiwn i ben yn addas iawn drwy wrando ar garol Dafydd Jones o Gaio, 'Wele, cawsom y Meseia'.

Mae'n syndod sut mae'r rhai sydd wedi mentro wedi cyfarwyddo â'r dechnoleg newydd a'r teimlad cynnes o gymdeithasu all ddod yn ei sgil, er nad yw cystal â chyfarfod yn y cnawd wrth gwrs.

Felly, beth am roi cynnig arni ar gyfer ein cyfarfod nesaf ar 15 Ionawr – pan fydd y cerddor dawnus o Gaerdydd, Gareth Bonello, yn cyflwyno sgwrs a chân am ei ymchwil i'r berthynas rhwng diwylliant Cymru a diwylliant Bryniau Casia, yng Ngogledd-ddwyrain India. Noson ddifyr arall, yn ddi-os!

# Taith y Doethion

Cerdd ydyw 'The Journey of the Magi' ('Taith y Doethion') a sgrifennodd T. S. Eliot yn 1927, blwyddyn o drobwynt yn ei hanes pan gafodd ei fedyddio a'i dderbyn i Eglwys Loegr. Dyma un o'i 'gerddi Cristnogol' cynharaf. Mae'n werth sôn am hanes cyfansoddi'r gerdd fel y'i hadroddwyd gan Eliot ei hunan. Mae'n ymddangos fod y syniad am y gerdd wedi dod ato yn yr eglwys un bore Sul. Aeth adref a mynd ati i sgrifennu, gyda, meddai, hanner potelaid o Booth's Gin ar y bwrdd o'i flaen; erbyn amser cinio roedd y botel yn wag a'r gerdd wedi ei sgrifennu. Onid nid y ddiod a ysgogodd awen Eliot mewn gwirionedd, ond rhywbeth cryfach, sef ei ffydd grefyddol. Fe gynhyrchodd Eliot y bore hwnnw gerdd ddwys a go arbennig, sy'n cael ei hystyried fel un o'i gerddi crefyddol gorau.



Cerdd yn y wers rydd, cerdd ddi-odl o bedwar pennill ydyw. Ynddi mae un o'r doethion yn llefaru yn ei henaint gan gofio am y daith i Fethlehem flynyddoedd ynghynt. Nid yw'r sôn am y daith yn gonfensiynol: ni cheir ynddi sôn penodol am ddilyn y seren, na sôn am yr aur, thus, a'r myrr, na darlun pert o Fair a'r baban Iesu yn y preseb. Yn rhyddieithol iawn, y cyfan a ddywed yr hen ŵr am ei brofiad ym Methlehem yw ei fod yn 'foddhaol', yn y Saesneg gwreiddiol 'it was (you may say) satisfactory'.

Mae'r ddau bennill cyntaf yn sôn yn uniongyrchol am galedi'r daith drwy'r eira yn nhrymder y gaeaf, hiraeth y doethion am eu hen fywyd moethus yn y palasau gynt, a'u hamheuon eu bod ar berwyl ffôl. Fe geir newid cywair yn y trydydd pennill, sy'n sôn am y doethion yn nesáu at ddiwedd eu taith, yn disgyn o'r ucheldiroedd llawn eira i ddyffryn dymunol a ffrwythlon. Fe geir delweddau hyfryd yma. Mae i rai ohonynt, y rhan fwyaf efallai, gysylltiadau crefyddol: y rhai mwyaf amlwg ydy'r sôn am dri phren yn erbyn yr wybren – adlais, wrth gwrs, o'r tair croes ar Galfaria; sôn hefyd am ddynion yn chwarae dis am arian, adlais o'r milwyr Rhufeinig yn bwrw coelbren am ddillad Crist adeg y Croeshoeliad. Cyrraedd Bethlehem a'r stabl o'r diwedd, ond nid yw'r hen ŵr yn manylu ynghylch y profiad nac yn disgrifio'r olygfa, dim ond dweud yn syml: 'roedd o'n foddhaol'.

Mae'r pedwerydd pennill yn fwy anodd. Mae'r hen ŵr yn synhwyro iddo ef a'r doethion eraill weld ym Methlehem nid yn unig Enedigaeth ond hefyd Farwolaeth, ar un lefel efallai genedigaeth Crist a rhagargoel o'i farwolaeth. Fe geir awgrym nad oedd y doethion wedi llawn sylweddoli beth a welsant ym Methlehem, ond roeddent yn synhwyro bod rhyw newid wedi bod er hynny. Yn ôl yn eu cynefin, er nad ydynt wedi llwyr ddirnad eu profiad, o'i herwydd nid ydynt bellach yn teimlo'n gartrefol; maent wedi eu dieithrio i raddau oddi wrth eu pobl eu hunain sy'n dal i addoli duwiau'r hen drefn.

Mae'r llinell olaf yn arbennig o enigmatig ac anodd: 'I should be glad of another death' / 'Mi fyddwn i'n falch o farwolaeth arall'. Ymbalfalu a wnaeth y beirniaid llenyddol wyneb yn wyneb â'r llinell hon. Yn ôl rhai mae'r hen ŵr doeth yn deisyfu marwolaeth oherwydd ei fod yn sylweddoli fod ei fyd ef – byd y sêr-ddewiniaid a'u diwylliant a'u crefydd – wedi darfod yn sgil dyfodiad Crist. Mae yma sylweddoliad o ddiwedd un cyfnod a dechrau un newydd. Ym Methlehem fe welodd y doethion eu marwolaeth eu hunain megis, marwolaeth eu ffordd o fyw. Efallai.

Ynteu a yw'r dehongliad hwn yn rhy lythrennol? A yw'r gerdd yn gweithio ar fwy nag un gwastad? Ai'r bardd ei hun sy'n llefaru yn rhith un o'r doethion mewn gwirionedd, gyda'r gerdd gyfan yn drosiad, yn fetaffor, am ei bererindod ysbrydol a'i hanawsterau, am ei ddeisyfiad am Farwolaeth yr hen hunan a'i Eni ysbrydol maes o law?

Mae'n werth cofio yn y cyswllt yma am y beddargraff a ddewisodd Eliot ar ei gyfer ei hun ymhen deugain mlynedd (dyfyniadau o'i ddilyniant diweddarach o gerddi, ei 'Four Quartets'): 'In my beginning is my end … In my end is my beginning' / 'Yn fy nechrau mae fy niwedd … Yn fy niwedd mae fy nechrau'.  At y diwinyddion efallai, yn hytrach na'r beirniaid llenyddol, y dylid troi am esboniad ar y llinell olaf. Ond sut bynnag, mae modd mwynhau'r gerdd ar sawl lefel, heb gael eich llorio gan ei hamwysedd, a chael pleser ohoni heb boeni'n ormodol am sicrwydd dehongliad.

*Gruffydd Aled Williams*

# ‘Taith y Doethion’ (T. S. Eliot)

’Roedd hi’n oer pan ddaethom ni,
Yr adeg waetha’ o’r flwyddyn
Ar gyfer taith, a thaith oedd mor hir:
Eira’n ddwfn ar y ffyrdd a’r oerni’n brathu,
Yn nhrymder y gaea’.
A’r camelod yn ddolurus, eu traed yn brifo, yn ddrwg eu hwyliau,
Yn gorwedd i lawr yn yr eira meiriol.
Weithiau fe hiraethem
Am y palasau hafaidd ar y llechweddau, a’r terasau,
A’r merched sidanaidd yn gweini diod felys.

Yna dyna ichi’r gyrwyr camelod yn tyngu ac yn cwyno
Ac yn rhedeg i ffwrdd, yn dyheu am eu diod a’u merched,
A thanau’r nos yn diffodd, a’r diffyg cysgod,
A’r dinasoedd yn elyniaethus, a’r trefi’n anghroesawgar,
A’r pentrefi’n fudur ac yn codi crocbris:
Mi gawsom ni amser caled.
Yn y diwedd ’roedd yn well gennym deithio drwy’r nos,
Gan fachu ambell gyntun weithiau,
Gyda’r lleisiau’n canu yn ein clustiau, gan ddweud
Mai gwiriondeb oedd hyn i gyd.



Yna ar doriad gwawr daethom i lawr i ddyffryn dymunol
A oedd yn ir a heb eira a'i borfeydd yn bêr,
Gyda nant redegog a melin ddŵr yn curo'r tywyllwch,
A thri phren yn erbyn yr wybren isel,
A charlamai hen geffyl gwyn ymaith ar y ddôl.
Yna daethom at dafarn a dail gwinwydd uwch lintel y drws,
Chwe llaw wrth y porth yn chwarae dis am ddarnau arian,
A thraed yn cicio'r costreli crwyn llawn gwin.
Ond 'wyddai neb ddim, ac felly fe aethom ymlaen
A chyrraedd fin nos, 'run eiliad cyn pryd
Gan gael hyd i'r lle; 'roedd o (mi allech chi ddweud)
          yn foddhaol.

'Roedd hyn i gyd amser maith yn ôl, 'rwy'n cofio,
Ac fe'i gwnawn o eto, ond mi rown ar glawr
Yr holiad yma,
Hyn; a gawsom ni'n harwain yr holl ffordd am
Enedigaeth neu am Farwolaeth? 'Roedd yna eni, yn sicr,
'Roedd gennym dystiolaeth a dim amheuaeth.
Mi welais i eni a marwolaeth,
Ond 'roeddem wedi meddwl eu bod yn wahanol;
'Roedd y Geni yma
Yn ing tost a chwerw inni, fel
Marwolaeth, ein marwolaeth.
Aethom yn ôl i'n cynefin, y teyrnasoedd hyn,
Ond heb fod yn gartrefol yno mwyach, o dan yr hen drefn,
Gyda dieithriaid yn anwesu eu duwiau.
Mi fyddwn i'n falch o farwolaeth arall.

*cyf. Gruffydd Aled Williams*

# Gweddi ar ddechrau Blwyddyn Newydd

Dywedodd yr Arglwydd Iesu Grist wrth ei ddisgyblion, 'Hebof fi, ni allwch chi wneud dim.'

Nid dweud y mae, wrth gwrs, nad oes ymdrech na llafur na chydweithio'n angenrheidiol nac yn ddymunol. Yn wir, ar drothwy'r Flwyddyn Newydd mae'n briodol ein bod yn cydnabod ein cyfraniadau gwahanol, gan ddiolch i Dduw am bob un sy'n weithgar ac yn ofalus ohonom, ein buddiannau, ein capeli.

Ond cawsom ddysgu eto eleni pa mor egwan ydym mewn gwirionedd a pha mor aneffeithiol yw ein holl fwriadau daionus heb drugaredd ac ymyrraeth yr Arglwydd Iesu Grist, drwy ei Ysbryd Glân.

Ar drothwy'r Flwyddyn Newydd carwn eich gwahodd i ymuno gyda mi i weddïo ac i alw ar yr Arglwydd am ei drugaredd ac am dywalltiad grasol a nerthol o'i Ysbryd Glân. Lle mae'r print yn **drwm neu'n ddu**, beth am oedi i feddwl ac i ychwanegu ein 'Amen' – bydded felly.

Gadewch i ni geisio'r Arglwydd yn ein holl ffyrdd ac nid dim ond pan fydd pethau wedi mynd yn sgrech arnom!




## Gweddi am obaith

O Arglwydd Dduw, Duw a thad ein Harglwydd Iesu Grist, yr ydym am ymostwng i'th ddaioni grasol di.

**Addolwn di.**

Yr ydym am gydnabod dy ddaioni a'th amynedd tuag atom wrth i ni fwrw trem yn ôl dros y flwyddyn sy'n dirwyn i ben. Diolchwn i ti nad wyt wedi cefnu ar dy blant am foment, hyd yn oed yn ystod y profiadau caled a ddaeth i'n rhan.

**Diolch i ti.**

Buom yn byw yng nghysgod pla'r Cofid ac yr oeddem yn teimlo ein gwendid a'n meidroldeb wrth i ni wynebu gelyn na allem mo'i weld. Arglwydd, diolchwn i ti am y Gwasanaeth Iechyd, am feddygon, am nyrsys, am weithwyr cymdeithasol, am ofalwyr, am athrawon, am ysgolion a phrifysgolion, am bob un a'n cynorthwyodd yn ddiarbed yn ystod y flwyddyn.

**Diolch i ti.**

Arglwydd, wrth i ni wynebu Blwyddyn Newydd, gwyddom nad yw'r Cofid wedi cilio o’n tir, ac y bydd heriau a ddaw yn sgil Brecsit yn parhau i’n bwrw. Dysga ni o’r newydd beth yw pwyso ar dy ras, pwyso ar dy fraich, pwyso ar dy gariad.

**Arglwydd, trugarha.**

Diolchwn ein bod wedi cael y fraint o ddathlu dyfodiad Iesu Grist i’r byd yn Emaniwel, yn Dduw gyda ni. Daethost â llawenydd, a chyfiawnder a heddwch a chariad mewn person i’n byd. Cymaint oedd gorfoledd y nef nes i angylion nef uno mewn cân o fawl uwchlaw ein byd trist. Arglwydd, dysg ni i glustfeinio i adnabod tonau mawl engyl nef, a chaniatâ i ninnau ymuno yn y nefol gân.

**Arglwydd, agor ein calonnau er mwyn i’n gwefusau fynegi dy fawl.**

Gweddïwn dros ein capeli. Gweddïwn dros blant yr ysgolion Sul. Cadwa nhw rhag pob niwed a phob cam.

**Arglwydd, deled dy Deyrnas.**

Gweddïwn dros y rhai yn ein plith sydd wedi cefnu, nid yn unig ar gapel a chwrdd, ond arnat ti, O Arglwydd. Wnei di fod yn dirion wrthynt a’u denu’n ôl atat? At yr ofnus, tyrd yn agos. Wrth y rhai sy’n byw gyda salwch, trugarha. Wrth y rhai sy’n byw yng nghaethiwed ofn, neu chwerwedd, neu sy’n methu maddau, trugarha. A’r rhai sy’n lluddedig ar y daith, yn cloffi, yn blino dan bwysau eu hamgylchiadau – a ddoi di atynt i’w cynnal?

**Arglwydd, trugarha**

A gweddïwn dros dy Eglwys, Iesu da. A wnei di ein hadnewyddu drwy dywalltiad nerthol o’th Ysbryd Glân? Ac, Arglwydd, a wnei di ddechrau’r adnewyddiad hwnnw yn fy nghalon i?

**Arglwydd Iesu Grist,**
**Ar waethaf ein hamgylchiadau, ein hofnau a’n hansicrwydd,**
**rydym am ddatgan mai dy eiddo di ydym.**
**Arglwydd Iesu Grist, rydym yn dewis rhoi**
**ein hymddiried a’n ffydd ynot**
**ac rydym am gamu i’r flwyddyn newydd**
**gyda thi’n gwmpeini ac yn arweinydd.**

Amen.

# Carol Plygain

Dewch allan, bawb, o'ch cartref clyd
I ddathlu pen blwydd mwya'r byd,
Ond ble mae Crist, pa le mae Crist?
Mae'n drist nad ydyw yn y crud.

Wel llawenhawn, mae yn ein plith
Ond nid yn symud megis rhith,
Disgleirio mae, disgleirio mae
Er pob rhyw wae fel perlog wlith.


Cans ynddo Ef cryfhawn ein ffydd,
Hwn ydyw anrheg mwya'r dydd,
Dewch bawb i'r wledd, dewch bawb i'r wledd,
Hyfryd yw gwedd yr Iesu rhydd.

Os Iesu llwyd yr Iddew yw,
I ni y mae'n waredwr byw,
Drwy Gymru fad, drwy Gymru fad
Yn Feddyg rhad a gwir Fab Duw.

Cyd-ddathlwn, bawb, mae'r 'rhyfedd' rin
Heddiw yn falm i'n dyddiau blin,
Ein Harglwydd Da, O Arglwydd da,
Ti yw ein bara, Ti yw'r gwin.

*Vernon Jones*

# Dydd Gweddi'r Byd – 5 Mawrth 2021



Bydd Dydd Gweddi'r Byd 2021 yn cael ei gynnal ar 5 Mawrth 2021 ac, fel arfer, mae gwasanaeth arbennig wedi'i lunio ar gyfer yr achlysur. Y tro hwn, paratowyd y gwasanaeth gan Chwiorydd Cristnogol Vanuatu a'r thema yw 'Adeiladwch ar Sylfaen Gadarn'.

Ar ochr arall y byd, yn y Cefnfor Tawel, 2000 o filltiroedd i'r dwyrain o Awstralia, y mae grŵp o 80 o ynysoedd sy'n ffurfio Vanuatu. Mae'r traethau o dywod du a gwyn, y pysgod lliwgar sy'n nofio yn y rîff cwrel, a'r adar hyfryd yn creu amgylchedd hudol, ond eto mae'r ynysoedd hyn yn dioddef yn sgil stormydd trofannol, daeargrynfeydd a swnamis o bryd i'w gilydd.

Gelwir ar ferched, dynion a phlant i 'Adeiladu ar Sylfaen Gadarn' a byw mewn undod, cariad a heddwch yng nghyd-destun yr amrywiaeth ethnig a diwylliannol tebyg i'r hyn a geir yn Vanuatu ac mewn llawer man arall yn y byd. Am fanylion pellach (yn Saesneg), ewch i: https://www.wwdp.org.uk/

## Capel y Garn

### Llongyfarchiadau calonnog i'r canlynol:

**Marjorie Hughes ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed;**

**Mair ac Alun Jenkins ar enedigaeth ŵyr bach,
Dewi Glyn, mab Aled a Kathryn;**

**Elina Davies ar enedigaeth gorwyr,
Evan, mab Hazel a Mathew;**

**Nans Morgan ar enedigaeth gorwyres,
Nyfain, merch Gruffudd a Mari**



Nyfain fach yn ymweld â'i hen fam-gu, Nans Morgan,
am y tro cyntaf, gyda Gruffudd, ei thad

# Cristion

Drwy'r post, fel arfer, y dydd o'r blaen cyrhaeddodd y rhifyn olaf am eleni o'r cylchgrawn *Cristion*, Tachwedd / Rhagfyr 2020. Mae *Cristion* yn gylchgrawn deufisol a gyhoeddir gan Fwrdd Cyhoeddi'r eglwysi isod: Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Yr Eglwys Fethodistaidd, Yr Eglwys yng Nghymru, Undeb Bedyddwyr Cymru, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, a'r Eglwys Gatholig Rufeinig. Y Parchedig Owain Llŷr Evans, Caerdydd, yw'r golygydd a dewisir thema benodol i bob rhifyn, ac yn naturiol ddigon y thema y tro hwn yw 'Geni'. Yn y rhifyn hwn ceir un ar bymtheg o erthyglau a chroesair sy'n adlewyrchu, fwy neu lai, gynnwys y rhifynnau eraill, ac amrywiaeth eang o gyfranwyr. Gellir darllen pob rhifyn, sy'n un neu ddwy dudalen i bob erthygl, yn hamddenol a hwylus iawn. Nodir yma enghreifftiau o gynnwys y rhifyn hwn: 'Bethlehem', Emlyn Davies; 'Genedigaeth a'r Gair', Carwyn Graves; 'Geni sy'n arwain at aileni?' Aron Treharne; 'Ysbryd Crist yn ein tywys i enedigaeth newydd', John Roberts.

Yn bersonol, fe fydda i'n gwerthfawrogi'n fawr gyfraniad Aled Lewis Evans sy'n ymddangos bron yn ddieithriad ar ddechrau pob rhifyn ar ffurf gweddi, a'r tro hwn 'Gweddi'r Geni'. Mae ei gyfraniad bob amser yn ffres iawn, yn wahanol i'r disgwyl, ac yn eich procio i feddwl ac i ddweud yr hyn sydd yn ein calonnau mewn ffordd mor gynnil a chynnes fel yn y dyfyniad hwn:

> O Dad, rydym yn dystion i Eni yn y rhuddin cymeriad a welwn yn ein henoed amyneddgar a'u sirioldeb yn wynebu'r feirws. Diolch, O Dad, am yr holl waith tawel a wneir drosot – am y gorchwylion bach na wyddom ni amdanyn nhw yng nghymunedau ac eglwysi a chapeli Cymru. Pethau a wneir yn y cysgodion heb chwennych cymeradwyaeth na chlod gweladwy ...
>
> Yn ein cysgodi unig, anodd ac ofnus ambell dro, diolchwn pan fydd siopa wedi ei adael wrth y drws, a'r sgwrs a'r codi llaw o bell yn aileni ynom hyder mewn dynoliaeth a chymdeithas ...
>
> Wrth i ni gofio dy Eni ym Methlehem a phan ddaw blwyddyn newydd, boed i'th Gariad di gael ei eni fwyfwy yn ein calonnau oll.

Diolch yn fawr, Aled, unwaith eto. Edrychwn ymlaen at y rhifyn nesaf pan taw'r thema fydd 'Newid', ac, wrth gwrs, diolch a bendith Duw ar ymdrechion pob un sy'n ysbrydoli ac yn gweithio ar y cylchgrawn.

*Ina Tudno Williams*

## Grŵp Help Llaw – Capel y Garn

Er nad yw'r Grŵp yn cyfarfod ar hyn o bryd, mae'r ymdrechion i estyn cymorth yn parhau, a chyfrannwyd £60 tuag at Water Aid yn ystod y misoedd diwethaf hyn.

Rydym yn parhau i gasglu newid mân at Water Aid, ac mae potel bwrpasol yn festri'r Garn i dderbyn unrhyw roddion.

Rydym hefyd yn casglu stampiau sydd wedi'u defnyddio ar gyfer y deillion eto eleni.




Felly, byddem yn ddiolchgar am unrhyw stampiau, e.e. oddi ar amlenni eich cardiau Nadolig, i'w cyflwyno i'r elusen arbennig yma. Cofiwch adael rhimyn o tua 1 cm o gwmpas y stampiau wrth eu torri allan.

Diolch am bob cefnogaeth,

Shan (01970 828268)
Ann (01970 828163)

**Swyddogion yr Ofalaeth**

Cadeirydd: Marian BeechHughes, y Garn
Is-gadeirydd: Mrs Ina Tudno Williams, Capel Seion
Ysgrifennydd: Gruffydd Aled Williams,
Bronafon, Dolau, Bow Street, Aberystwyth, Ceredigion, SY24 5AE
(ffôn: 01970 820664; ebost: gawilliams1@btinternet.com)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **6 Mawrth** i'r golygydd:
Marian B Hughes, 14 Maes y Garn, Bow Street
01970 828662; marian_hughes@btinternet.com